This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# CO22163 Ysgol Gyfun Radur (Gwelliannau i’r Brifford d)

## Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

## Hydref 2023

### Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i uwchraddio'r groesfan sebra bresennol ar Heol Isaf i groesfan sebra ddyrchafedig a hefyd i ymgymryd â gwelliannau eraill i'r droedffordd ar hyd y llwybr hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 01/09/2023 a 22/09/2023.

### Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

### Canlyniadau’r Ymgynghoriad

Cafwyd 3 ymateb unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymateb fel a ganlyn:

**2: Cefnogaeth, a chefnogaeth gydag awgrymiadau ychwanegol**

**1: Yn erbyn y cynnig gyda sylwadau ychwanegol**

### Sylwadau Cefnogol

Derbyniwyd dau sylw yn nodi y byddai'r cynllun arfaethedig yn cynyddu'r diogelwch ar Heol Isaf a hefyd yn cynorthwyo myfyrwyr sy'n teithio i Ysgol Gyfun Radur.

### Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig.

**Materion Penodol**

Mae'r materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

| **Mater** | **Ymateb** |
|---|---|
| Derbyniwyd nifer o sylwadau yn gofyn a yw'r Gorchmynion Rheoli Traffig presennol *(cyfyngiadau parcio*) gellid ei adolygu a'i ymestyn ymhellach ar hyd Heol Isaf. | Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) ar gyfer y briffordd fel rhan o'r cynllun hwn. Mae'r broses GRhT yn broses gyfreithiol ac mae'n mynd trwy wahanol gamau ymgynghori a fyddai ar wahân i'r ymgynghoriad hwn.<br><br>Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, byddwn yn parhau i fonitro'r lleoliad i asesu a oes angen unrhyw gyfyngiadau parcio pellach ar hyd Heol Isaf. |
| Derbyniwyd sylw yn gofyn a oes lle hefyd i ehangu'r droedffordd ar ochr orllewinol Heol Isaf. | Gan fod Heol Isaf yn llwybr bws mae'n rhaid i ni sicrhau bod digon o led ar y lôn gerbydau ddeuffordd ar hyd y llwybr hwn. Gan y bwriedir ehangu'r droedffordd ddwyreiniol nid oes digon o led lôn gerbydau ar ôl i ehangu'r droedffordd orllewinol hefyd. |
| Derbyniwyd un sylw yn gofyn a ellid newid y camera cyflymder yn ôl. | Hen gamera analog yw'r camera cyflymder presennol ar Heol Isaf. Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda'i bartneriaid i uwchraddio nifer o safleoedd camerâu diogelwch ar y ffyrdd o amgylch y ddinas. Bydd hyn yn golygu disodli rhai o'r mathau hŷn o gamerâu a'u huned gyda chamerâu digidol, polion a gorchuddion modern newydd.<br><br>Byddai angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw uwchraddio offer camera sy'n bodoli eisoes a fyddai'n ffurfio rhan o gais cyllido ar wahân.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio camerâu diogelwch ar gael gan GanBwyll, a'i nod strategol yw gwneud pobl yn fwy diogel ar ffyrdd Cymru drwy leihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu ac achub bywydau. Ewch i www.ganbwyll.cymru am ragor o wybodaeth |

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.




Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.